Senedd Cymru | Welsh Parliament
Ymchwil y Senedd | Senedd Research

# Amseroedd aros y GIG – adroddiad monitro tymhorol

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol | 14 Mawrth 2024
Health and Social Care Committee | 14 March 2024

## Cyflwyniad

Dyma **bumed adroddiad monitro'r** Pwyllgor ar dargedau adfer GIG Cymru ar gyfer gofal a gynlluniwyd, a osodwyd ym mis Ebrill 2022. Mae'r prif uchelgeisiau i leihau amseroedd aros i bobl yng Nghymru yn cynnwys y canlynol:

- Ni fydd neb yn aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf **erbyn diwedd 2022**.
- Cael gwared ar restrau aros o fwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau **erbyn mis Mawrth 2023**.
- Cael gwared ar restrau aros o fwy na blwyddyn yn y rhan fwyaf o arbenigeddau **erbyn gwanwyn 2025**.
- Cyflymu profion ac adroddiadau diagnostig i wyth wythnos ac i 14 wythnos ar gyfer ymyriadau therapi **erbyn gwanwyn 2024**.
- Rhoi diagnosis a thriniaeth canser o fewn 62 diwrnod i 80 y cant o bobl erbyn 2026 (gyda tharged adfer interim i fodloni gofynion y llwybr canser sengl o fewn 62 diwrnod ar gyfer 70 y cant o bobl **erbyn mis Mawrth 2023**).

Mae Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd wedi gwneud rhagor o waith craffu ar ôl cyhoeddi ei adroddiad monitro ym mis Tachwedd 2023, gan

gynnwys sesiwn graffu gyffredinol gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Tachwedd.

Daw'r ystadegau a ddefnyddir yn y papur briffio hwn o ddogfen crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Rhagfyr 2023 ac Ionawr 2024 Llywodraeth Cymru a StatsCymru.

Rhagor o wybodaeth:

- Cyhoeddir data ynghylch amseroedd aros yn fisol ar wefan StatsCymru gydag oedi o ddau fis.
- Mae adroddiadau monitro blaenorol ar gael ar wefan y Pwyllgor.
- Caiff lincs i adroddiadau uwchgynadleddau Gweinidogol yn ymwneud ag orthopedeg, offthalmoleg, y glust, y trwyn a'r gwddf, a chanser eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
- Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru bellach yn cyhoeddi dangosfwrdd gofal eilaidd sy'n darparu data ar apwyntiadau cleifion allanol, derbyniadau cleifion mewnol a gweithgarwch achosion dydd yng Nghymru.

Sylwer: **Nid yw nifer y llwybrau cleifion yn cyfateb i nifer y cleifion unigol**, oherwydd bod gan rai pobl sawl llwybr ar agor. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar flog Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru.

Mae datganiad ystadegol Llywodraeth Cymru yn nodi bod tua 584,000 o gleifion unigol ar restrau aros am driniaethau yng Nghymru ym mis Rhagfyr, pan oedd ychydig dros 756,300 o lwybrau cleifion ar agor.

# Trosolwg

Ym mis Rhagfyr 2023:

- Gostyngodd nifer y llwybrau cleifion o tua 758,800 i ychydig dros **756,300**, sef tua 2,480 yn llai o lwybrau cleifion ers mis Tachwedd, ond 66.6 y cant yn uwch nag ym mis Mai 2020.
- Wedi'i addasu yn ôl poblogaeth, **Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** oedd â'r nifer uchaf o lwybrau cleifion yn aros (28,051 fesul 100,000). **Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** oedd â'r niferoedd isaf yn aros yn gyffredinol (22,482). (*Mae'n bwysig nodi nad yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'i gynnwys oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ym Mhowys o gymharu â Byrddau Iechyd eraill.*)
- Cynyddodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na blwyddyn am eu **hapwyntiad claf allanol cyntaf** i ychydig yn llai na **57,000**.
- Roedd ychydig dros **24,000** o lwybrau cleifion yn aros am fwy na **dwy flynedd** am driniaeth.
- Roedd tua **140,300** o lwybrau cleifion yn aros am fwy na **blwyddyn** am driniaeth.
- O ran **gwasanaethau diagnostig**, gostyngodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros i ychydig dros **117,600** ond cynyddodd y nifer a oedd yn aros am fwy nag 8 wythnos (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) i ychydig dros **50,500**.
- O ran **therapïau**, gostyngodd llwybrau cleifion a oedd yn aros i ychydig yn llai na **67,400** ond cynyddodd y nifer a oedd yn aros am fwy na 14 wythnos (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) i ychydig o dan **12,600**.
- Cynyddodd perfformiad yn erbyn **targed y llwybr canser sengl** i **58.0 y cant.**

Cyn y pandemig, tua 10 wythnos oedd yr **amser cyfartalog yr oedd cleifion yn aros i ddechrau triniaeth** yn gyffredinol. Cynyddodd hyn yn ystod pandemig Covid-19 a chyrhaeddodd y lefel uchaf erioed, sef 29 wythnos, ym mis Hydref 2020. Ym mis Rhagfyr 2023, 21.5 wythnos oedd yr amser aros cyfartalog.

# Targed adfer 1: Apwyntiadau cleifion allanol cyntaf

Targed cynllun adfer 1: Ni fydd neb yn aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf erbyn diwedd 2022

Ym mis Rhagfyr 2023, cynyddodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na blwyddyn am eu **hapwyntiad claf allanol cyntaf** 5.6 y cant o gymharu â'r mis blaenorol, i ychydig yn llai na **57,000**.


Ni chyrhaeddwyd targed y cynllun adfer ar gyfer gofal a gynlluniwyd, sef na fyddai neb yn aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf **erbyn diwedd 2022**. Ni chyrhaeddwyd y targed diwygiedig **erbyn diwedd 2023** chwaith.

Dywedodd y Gweinidog Iechyd o'r blaen fod hyn oherwydd y cynnydd sylweddol mewn **atgyfeiriadau** ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol cyntaf. Cafodd 3,349 o atgyfeiriadau ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol cyntaf eu gwneud bob dydd ar gyfartaledd ym mis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn 22.2 y cant o ostyngiad (958 yn llai o atgyfeiriadau y dydd ar gyfartaledd) o gymharu â mis Tachwedd 2023. O gymharu â mis Rhagfyr 2022, mae'n 5.9 y cant o gynnydd.

Ers mis Rhagfyr 2022, mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf wedi **aros yn wastad ar tua 50,000** a gwelwyd **tri chynnydd yn olynol o fis i fis** rhwng mis Medi a mis Rhagfyr.

Ymhlith y Byrddau Iechyd Lleol, roedd y nifer uchaf o lwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na blwyddyn fesul 100,000 o'r boblogaeth ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg** (2,965) a'r isaf ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe,** lle nad oes llwybrau yn aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf mwyach. (*Mae'n bwysig nodi nad yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'i gynnwys oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ym Mhowys o gymharu â Byrddau Iechyd eraill.*)

Ffigur 1: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am dros 53 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr

# Targed adfer 2: Targedau aros dwy flynedd

Targed cynllun adfer 2: Cael gwared ar restrau aros o fwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023

Sefydlodd y cynllun adfer ar gyfer gofal a gynlluniwyd darged i gael gwared ar **restrau aros o fwy na dwy flynedd yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn mis Mawrth 2023**. Ni chyrhaeddwyd y targed.

Erbyn **mis Awst** nid oedd y targed wedi'i gyrraedd, ac roedd tua **27,000** o lwybrau cleifion yn aros am fwy na dwy flynedd i ddechrau triniaeth. Roedd ychydig dros **24,200** o lwybrau cleifion yn aros am fwy na dwy flynedd ym **mis Rhagfyr 2023**.

Mae'r nifer sy'n aros am fwy na dwy flynedd **yn gostwng at ei gilydd o fis i fis**, ac ar gyfartaledd, ddiwedd mis Rhagfyr, roedd llwybrau cleifion wedi bod yn aros am driniaeth am **21.5 wythnos**.


Wedi'i addasu yn ôl poblogaeth, roedd y nifer uchaf o lwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na dwy flynedd am driniaeth ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** (1,187) a'r isaf ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan** (649). (*Mae'n bwysig nodi nad yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'i gynnwys oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ym Mhowys o gymharu â Byrddau Iechyd eraill.*)

Mae 'y rhan fwyaf' yn cyfeirio at bob arbenigedd, **ac eithrio saith** a gaiff eu cydnabod fel rhai eithriadol o heriol. Y saith yw Dermatoleg, Llawfeddygaeth Gyffredinol, Offthalmoleg, Wroleg, Gynaecoleg, Orthopedeg, a'r Glust, y Trwyn a'r Gwddf. Ym mis Rhagfyr 2023, roedd **16 o arbenigeddau eraill** lle roedd lwybrau'n dal i aros am fwy na dwy flynedd, sy'n cyfrif am 3,047 o lwybrau.

Mae **rhagamcan** sy'n defnyddio data o fis Gorffennaf i fis Rhagfyr yn dangos, ar gyfradd bresennol y cynnydd (h.y. os yw cyfradd y cynnydd ers mis Gorffennaf 2023 yn parhau), **na fyddwn yn cyrraedd y targed adfer i gael gwared ar restrau aros o ddwy flynedd yn 'y rhan fwyaf' o arbenigeddau tan tua mis Tachwedd 2026**.

Y **targed diwygiedig** yw i fyrddau iechyd gyflawni hyn **erbyn mis Mawrth 2024**.

Ffigur 2: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am dros 105 o wythnosau i ddechrau triniaeth yn y rhan fwyaf o arbenigeddau (ac eithrio'r saith a gaiff eu cydnabod fel rhai eithriadol o heriol) a rhagamcan yn seiliedig ar y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2023




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr

# Targed adfer 3: Targedau aros blwyddyn

Targed adfer 3: Cael gwared ar restrau aros o fwy na blwyddyn yn y rhan fwyaf o arbenigeddau erbyn gwanwyn 2025

Sefydlodd y cynllun adfer ar gyfer gofal a gynlluniwyd darged i gael gwared ar restrau aros o fwy na **blwyddyn** i ddechrau triniaeth yn 'y rhan fwyaf' o arbenigeddau **erbyn gwanwyn 2025**.


Er bod nifer y llwybrau cleifion sy'n aros dros **ddwy flynedd** am driniaeth yn gostwng bob mis, mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros **am fwy na blwyddyn wedi dechrau cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf.**

Ym mis Rhagfyr 2023, roedd tua **140,300** o lwybrau cleifion yn aros am fwy na blwyddyn, 2.8 y cant yn uwch na'r mis blaenorol.

Wedi'i addasu yn ôl poblogaeth, roedd y nifer uchaf o lwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na blwyddyn ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** (5,650). Roedd y nifer isaf a oedd yn aros am fwy na blwyddyn (3,455) ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe**. (*Mae'n bwysig nodi nad yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'i gynnwys oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ym Mhowys o gymharu â Byrddau Iechyd eraill.*)

Y **targed** yw i fyrddau iechyd gyflawni hyn **erbyn gwanwyn 2025**.

Ffigur 3: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am dros 53 wythnos i ddechrau triniaeth yn y rhan fwyaf o arbenigeddau (ac eithrio'r saith a gaiff eu cydnabod fel rhai eithriadol o heriol)




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybrau cleifion sy'n aros i ddechrau triniaeth yn ôl mis, wythnosau wedi'u grwpio a cham y llwybr

# Targed adfer 4: Profion diagnostig ac ymyriadau therapi

Uchelgais 4: Cyflymu profion ac adroddiadau diagnostig i wyth wythnos ac i 14 wythnos ar gyfer ymyriadau therapi erbyn gwanwyn 2024

Nid yw amseroedd aros am brofion diagnostig na therapi yn agos at lefelau cyn y pandemig, ac mae tuedd hirdymor tuag i fyny o ran llwybrau cleifion sy’n aros. Mae gan **bob bwrdd iechyd** lwybrau cleifion sy’n aros yn hirach na'r targed am brofion diagnostig a therapïau

Ddiwedd mis Rhagfyr, roedd ychydig dros **117,600** o lwybrau cleifion yn aros am **brofion diagnostig**. Mae profion diagnostig yn cynnwys profion gwaed, astudiaethau delweddu, endosgopi, biopsi, ac electrocardiogram ac ati. Cynyddodd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy nag **8 wythnos** (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) i ychydig dros **50,500**. Roedd hyn yn 7.0 y cant o gynnydd o gymharu â'r mis blaenorol.


Roedd nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros am **therapïau** ychydig yn llai na **67,400**. Mae ymyriadau therapi yn cynnwys seicotherapi, therapi ymbelydredd, llawdriniaethau a therapi galwedigaethol ac ati. Cynyddodd y nifer a oedd yn aros am fwy na na **14 wythnos** (y targed ar gyfer yr amser aros hiraf) i ychydig yn llai na **12,600**. Roedd hyn yn 9.7 y cant o gynnydd o gymharu â'r mis blaenorol.

Roedd y nifer uchaf o lwybrau diagnostig a oedd yn aros yn hirach na'r targed fesul 100,000 o'r boblogaeth ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** (2,882) ac roedd y nifer uchaf o ran therapïau ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** (892). Roedd y nifer isaf o lwybrau diagnostig a oedd yn aros yn hirach na'r targed fesul 100,000 o'r boblogaeth ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** (939) a'r nifer isaf o ran therapïau ym **Mae Abertawe** (19). (*Mae'n bwysig nodi nad yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'i gynnwys oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ym Mhowys o gymharu â Byrddau Iechyd eraill.*)

Ym mis Rhagfyr, yr amser aros cyfartalog am brofion diagnostig oedd 6.5 wythnos, a 6.1 wythnos am therapïau.

Y **targed** yw i fyrddau iechyd gyflawni'r targedau hyn **erbyn gwanwyn 2024**.

Ffigur 4: Nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am 8 wythnos neu ragor am wasanaethau diagnostig a thros 14 wythnos am wasanaethau therapi




Ffynhonnell: StatsCymru, Amseroedd aros am wasanaethau diagnostig a therapi yn ôl mis

# Targed adfer 5: Amseroedd aros ym maes canser

Uchelgais 5: Rhoi diagnosis a thriniaeth canser o fewn 62 diwrnod i 80 y cant o bobl erbyn 2026

Sefydlodd y cynllun adfer ar gyfer gofal a gynlluniwyd darged i gynyddu cydymffurfedd â'r llwybr canser sengl (h.y. y bydd diagnosis a'r driniaeth ddiffiniol gyntaf ar gyfer canser yn digwydd o fewn 62 diwrnod) **o 75 y cant i 80 y cant erbyn 2026.**

Mae targed y llwybr canser sengl **yn mesur diagnosis a'r driniaeth ddiffiniol gyntaf**. Ei nod yw sicrhau bod cleifion sydd â symptomau neu yr amheuir bod canser arnynt yn cael eu hasesu'n brydlon. Mae hyn yn golygu y dylent gael eu gweld gan arbenigwr neu gael profion diagnostig **o fewn 2 wythnos**. Ar ôl i ddiagnosis o ganser gael ei gadarnhau, mae sylw targed y llwybr canser sengl yn troi at yr amser a gymerir i ddechrau triniaeth briodol. Dyma'r **ddwy elfen** sy'n ffurfio'r **targed 62 diwrnod**.


O ran **llwybrau amheuaeth o ganser newydd a llwybrau amheuaeth o ganser caeedig**, mae'r data'n dangos bod **12,979** o lwybrau cleifion wedi eu hagor ym mis Rhagfyr yn dilyn amheuaeth newydd o ganser, gyda nifer y llwybrau newydd sy'n cael eu hagor yn sefydlogi yn ystod y misoedd diwethaf. Nifer y **llwybrau cleifion caeedig oedd 12,180**, sy'n golygu bod y claf wedi cael gwybod nad oedd canser arno.

Ym mis Rhagfyr, cafodd **1,603** o lwybrau cleifion ddiagnosis newydd o ganser a dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn y mis (15.4 y cant o ostyngiad o gymharu â'r mis blaenorol). Mae hyn yn gynnydd o ran perfformiad yn erbyn targed 62 diwrnod y llwybr canser sengl i **58.0 y cant** (930 o 1,603 o lwybrau). Mae hyn yn cymharu â 53.5 y cant yn y mis blaenorol.

Mae'r perfformiad yn amrywio ond bu **tuedd gyffredinol tuag i lawr** o ran cydymffurfedd â tharged y llwybr canser sengl yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Cytunwyd ar **darged carreg filltir** ar gyfer y llwybr canser sengl gyda byrddau iechyd, sef cydymffurfedd o 70 y cant erbyn mis Mawrth 2023, ond ni chyrhaeddwyd y targed.

Wedi'i addasu yn ôl poblogaeth, roedd y gyfran uchaf o lwybrau a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro** (70.2 y cant) a'r isaf ym **Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe** (50.8 y cant). (*Mae'n bwysig nodi nad yw Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wedi'i gynnwys oherwydd gwahaniaethau yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu darparu ym Mhowys o gymharu â Byrddau Iechyd eraill.*)

Ffigur 5: Canran y bobl a gafodd ddiagnosis o ganser ac a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i'r pwynt y cafodd canser ei amau gyntaf





Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau caeedig): Nifer y llwybrau lle y dechreuodd y claf gael ei driniaeth ddiffiniol gyntaf a'r rhai a gafodd wybod nad oedd canser arnynt yn ôl bwrdd iechyd lleol, safle'r tiwmor, grŵp oedran, rhyw, mesur a mis.

Mae ystadegau ar gael yn ôl **safle'r tiwmor canser**. Mae data mis Rhagfyr 2023 yn dangos mai canserau gynaecolegol (28 y cant), sarcoma (30 y cant), wrolegol (40 y cant), gastroberfeddol isaf (45 y cant), a'r pen a'r gwddf (50 y cant) sydd â'r gyfran isaf o lwybrau cleifion sy'n dechrau eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod. Mae hyn yn golygu bod **canran is o gleifion ag un o'r mathau hyn o ganser yn dechrau eu triniaeth o fewn yr amser hwnnw** (62 diwrnod). Gallai hyn

awgrymu oedi posibl wrth gael triniaeth ar gyfer cleifion canserau gynaecolegol, sarcoma ac wrolegol er enghraifft.

Ffigur 6 Canran y bobl a gafodd ddiagnosis o ganser ac a ddechreuodd eu triniaeth ddiffiniol gyntaf o fewn 62 diwrnod i'r pwynt y cafodd canser ei amau gyntaf yn ôl safle'r tiwmor.




Ffynhonnell: StatsCymru, Llwybr amheuaeth o ganser (llwybrau caeedig): Nifer y llwybrau lle y dechreuodd y claf ei driniaeth ddiffiniol gyntaf a'r rhai a gafodd wybod nad oedd canser arnynt yn ôl bwrdd iechyd lleol, safle'r tiwmor, grŵp oedran, rhyw, mesur a mis.

Cyflwynwyd **ymyriad canser cenedlaethol** (gan Weithrediaeth GIG Cymru a Llywodraeth Cymru), sy'n canolbwyntio ar rai o'r safleoedd tiwmor sy'n perfformio waethaf: **canserau gynaecolegol, wroleg a gastroberfeddol isaf.**

## Perfformiad cyffredinol

Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi **methu â chyrraedd ei thargedau adfer** ar gyfer gofal y GIG a gynlluniwyd, sy'n tanlinellu pwysigrwydd monitro perfformiad amseroedd aros y GIG.

Mae'r **duedd tuag i fyny o ran amseroedd aros**, yn enwedig y rhai sy'n aros am dros flwyddyn am driniaeth, yn codi pryderon ynghylch y gallu i fynd i'r afael ag amseroedd aros yn effeithiol a sicrhau bod cleifion yn cael triniaeth mewn modd amserol.

Ym mis Rhagfyr 2023, roedd gostyngiad yn nifer y llwybrau cleifion a oedd yn aros o gymharu â mis Tachwedd - cyfanswm o ychydig dros **756,300**. Ond mae'r ffigur hwn yn sylweddol uwch nag amseroedd aros cyn y pandemig, sy'n dangos bod **y pwysau ar wasanaethau gofal iechyd yn parhau**.

Mae nifer o faterion allweddol y mae'r ystadegau'n eu hamlygu:

- **Gwahaniaethau rhanbarthol o ran amseroedd aros**: Mae'r ystadegau'n amlygu'r amrywiadau sylweddol rhwng amseroedd aros ar gyfer llwybrau cleifion ar draws gwahanol Fyrddau Iechyd yng Nghymru. Er enghraifft, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg oedd â'r gyfran uchaf o lwybrau cleifion a oedd yn aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad cyntaf, sef 2,965 fesul 100,000 o'r boblogaeth, tra nad oedd yr un ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

- **Amseroedd aros ar gyfer apwyntiad claf allanol cyntaf sydd wedi aros yn yr unfan**: Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na blwyddyn am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf wedi aros yn wastad ar tua 50,000, sy'n awgrymu bod lleihau amseroedd aros yn her barhaus.

- **Amseroedd aros hir parhaus**: Er y bu gostyngiad yn nifer y llwybrau cleifion sy'n aros am fwy na dwy flynedd am driniaeth, mae'r broblem yn parhau, gydag ychydig dros 24,200 o lwybrau yn dal i aros ddiwedd mis Rhagfyr 2023. Mae hyn yn dangos bod heriau'n parhau o ran lleihau amseroedd aros hir iawn a sicrhau bod cleifion yn cael triniaeth mewn modd amserol.

- Arbenigeddau lle y mae'r amseroedd aros yn hir: Er gwaethaf y cynnydd a wnaed o ran lleihau amseroedd aros, mae 16 arbenigedd o hyd (yn ogystal â'r 7 arbenigedd sy'n eithriadol o heriol) lle y mae llwybrau cleifion yn aros am fwy na dwy flynedd am driniaeth. Mae hyn yn amlygu heriau o ran mynd i'r afael ag amseroedd aros hir ar draws ystod o arbenigeddau meddygol.

- Gwasanaethau diagnostig a therapi: Er bod cyfanswm y llwybrau cleifion sy'n aros am wasanaethau diagnostig a therapi wedi gostwng, mae'r nifer sy'n aros yn hirach na'r targed wedi cynyddu, sy'n dangos bod heriau o ran cyrraedd y targed ar gyfer yr amser aros hiraf yn y gwasanaethau hyn. Mae gan bob bwrdd iechyd lwybrau cleifion sy'n aros yn hirach na'r targed ar gyfer profion diagnostig a therapïau, sy'n awgrymu bod materion systemig yn effeithio ar ddarparu gwasanaethau gofal iechyd yn amserol ar draws pob rhanbarth.

- Perfformiad y llwybr canser: Cynyddodd perfformiad yn erbyn targed 62 diwrnod y llwybr canser sengl i 58.0 y cant, sy'n awgrymu rhywfaint o gynnydd o ran sicrhau diagnosis a thriniaeth amserol i gleifion canser, ond ar y cyfan mae'r perfformiad ar hyn o bryd yn dal i fethu'r targed. Mae diffyg ystadegau canser ar wahân yn ei gwneud yn anodd olrhain perfformiad yn y cam diagnostig ac yn llesteirio'r gallu i gael gwybod beth sydd wrth wraidd yr oedi.